

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Symbiosis

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-399-4

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Symbiosis ar 17 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 39 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 1 gan aelod o staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn yr holiaduron i gleifion i'w gweld drwy'r adroddiad, ond oherwydd y gyfradd ymateb isel ar gyfer yr holiaduron i staff, ni chawsant eu cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a gwelsom aelodau o'r staff yn trin cleifion mewn ffordd broffesiynol. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion yn gynhwysfawr a dywedodd y cleifion wrthym fod triniaethau yn cael eu hesbonio mewn ffordd y gallent ei deall. Gwelsom hyfforddiant yn cael ei roi i'r staff i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion gwarchoddedig, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth gan gleifion yn gadarnhaol, a nododd pob claf fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'
- Gwelsom aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith' a gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnig i'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y practis yn lân, yn fodern ac yn ddiogel, ac roedd y cleifion yn cytuno eu bod yn cael gofal diogel a bod y practis yn lân ac yn daclus. Nodwyd gennym fod meysydd i'w gwella mewn perthynas â rheoli cyfarpar meddygol brys a chofnodi nodiadau cleifion cynhwysfawr. Gwelsom brosesau cadarn ar gyfer dihalogi cyfarpar ac roedd y practis yn rheoli risgiau yn effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y cyfarpar brys yn barod i'w ddefnyddio bob amser
- Adolygu, cofnodi a dyddio holl bolisiau'r practis, gan sicrhau y cânt eu diweddarau'n rheolaidd
- Cadw cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd dyluniad a chynllun yr ardaloedd dihalogi o safon uchel
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf hyd at lefel uwch na'r lefel ofynnol
- Roedd y trefniadau ar gyfer asesu risgiau a'r gwiriadau diogelwch tân yn gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom strwythur rheoli cefnogol a chdir, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd practis rheolaidd ac arfarniadau rheolaidd i'r staff. Gwelsom weithlu cyfeillgar a phroffesiynol a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu cefnogi a'u bod yn cael hyfforddiant a oedd yn mynd y tu hwnt i'r holl ofynion gorfodol.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda ac roedd trefniadau goruchwyllo addas ar waith ar eu cyfer gan reolwyr y practis. Roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhai gweithgareddau sicrhau ansawdd. Clywsom gan y staff eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi pryderon a'u bod yn deall y broses y byddent yn ei dilyn er mwyn gwneud hynny.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud mwy o weithgareddau gwella ansawdd ac archwilio clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant y tu hwnt i'r gofynion gorfodol, ac roeddent yn ymgymryd â hyfforddiant o'r fath. Roeddent yn meddu ar set briodol o sgiliau ar gyfer y gofal a ddarperir.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i holiadur AGIC yn gadarnhaol, gyda phob ymatebydd yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (39/39). Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf bob amser wedi cael gwasanaeth rhagorol dros ddegawdau. Staff cyfeillgar, awyrgylch hamddenol.”

“Practis rhagorol. Rwyf wedi byw mewn sawl gwlad, a dyma'r practis deintyddol gorau rwyf wedi'i ddefnyddio erioed.”

“Mae'r practis hwn yn cynnig gwasanaeth deintyddol rhagorol ac mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas.”

“Rwyf wrth fy modd fy mod wedi dod o hyd i'r ddeintyddfa hon. Trueni na fyddwn wedi dod o hyd iddi'n gynharach! Mae staff y dderbynfa, yr hylenywyr a'r clinigwyr oll yn neilltuol.”

“Rwyf wedi bod yn glaf gyda'r teulu Morgan ac wedi cael gofal rhagorol am fwy nag 20 mlynedd.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Hoffwn pe bai modd cael cadarnhad o apwyntiadau drwy e-bost neu neges destun neu drwy lythyr yn y post.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd gwybodaeth gofal iechyd i'w gweld yn ystod pob cam o daith y claf a gallai'r cleifion fynd â'r wybodaeth honno gyda nhw.

Roedd gwybodaeth ar gael am sepsis, rhoi'r gorau i smygu a chyngor deietegol. Gwelsom daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys llawer o fanylion, yn ogystal â rhestr prisiau gynhwysfawr a oedd wedi'i diweddarau'n ddiweddar a oedd wedi'i harddangos ac yr oedd copi ohoni ar gael i'r cleifion fynd â'r rhestr gyda nhw. Dywedodd y staff wrthym fod yr holl wybodaeth ar gael mewn fformat gwahanol ar gais a bod y daflen wybodaeth i gleifion wrthi'n cael ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Gwelsom fod enwau a rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol y clinigwyr wedi'u harddangos ar wal y dderbynfa. Roedd oriau agor y practis a'r manylion cyswllt ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau i'w gweld yn amlwg y tu allan i'r adeilad.

Dywedodd pob ymatebydd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall a'u bod wedi cael cyngor ôl-ofal addas.

Gofal Urddasol a Pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa ar wahân i'r ardal aros i gleifion er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis, ac roedd ystafell yn union y tu ôl i'r dderbynfa y gellid ei defnyddio ar gyfer trafodaethau preifat. Roedd drysau cadarn ar yr ystafelloedd clinigol a oedd yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau ac roedd y deintyddfeydd ar y llawr gwaelod yn defnyddio bleinds er mwyn sicrhau na ellid gweld cleifion yn cael triniaethau. Roedd codau moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi ateb eu cwestiynau mewn ffordd y gallent ei deall.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am y triniaethau a oedd ar gael, a bod y staff wedi esbonio'r risgiau a'r manteision iddynt. Nid oedd dau glaf yn cytuno bod y costau wedi cael eu hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Roedd pob un o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod y staff wedi esbonio beth roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad a'u bod wedi holi am eu hanes meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth. Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal a dywedodd pob claf ond un eu bod wedi cael canllawiau clir o ran pwy y dylid cysylltu ag ef mewn argyfwng.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod proses briodol ar waith ar gyfer rheoli apwyntiadau er mwyn sicrhau bod amser y clinigwyr yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn neu'n dilyn apwyntiad yn bennaf. Caiff llythyrau eu hanfon i gadarnhau apwyntiadau cleifion ac roedd cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi pan fyddent yn cyrraedd neu dros y ffôn ar gyfer achosion hirach o oedi. Ar gyfartaledd, byddai'n rhaid aros tua phythefnos am apwyntiad cyffredin, ond roedd cyfnod aros o ryw dri mis ar gyfer hylenydd.

Roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu dros y ffôn a byddai cleifion yn cael eu gweld o fewn 24 awr o gysylltu. Roedd y practis yn cadw slotiau 10 munud gwag ar gyfer apwyntiadau brys drwy gydol yr wythnos.

Roedd plant a'r rhai hynny a oedd yn gweithio'n llawn amser yn cael blaenoriaeth ar gyfer apwyntiadau cynnar a hwyr ac roedd trefniadau gweithio hyblyg ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod apwyntiadau addas ar gael i gleifion. Roedd canfyddiadau ein harolwg cleifion yn ategu hyn, gan gadarnhau bod pob un o'r ymatebwyr yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Roedd rhai o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg a gwelsom un aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith'. Dywedwyd wrthym y byddai adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio pe byddai unrhyw glaf yn awyddus i gyfathrebu gan ddefnyddio iaith heblaw Saesneg. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen ar gais, ond nad oeddent yn cael eu cynnig fel mater o drefn.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom bractis a oedd yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi hawliau a chydraddoldeb ei gleifion. Nodwyd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth manwl, yn ogystal â pholisi cynhwysfawr ar gyfer derbyn cleifion. Gwelsom hefyd fod polisi recriwtio'r practis yn sicrhau prosesau teg a chyfartal ar gyfer penodi staff.

Clywsom gan aelodau o'r staff eu bod wedi cael addasiadau rhesymol o ganlyniad i gyflyrau iechyd, a bod hawliau a chydraddoldeb yn cael eu trafod yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd y practis. Gwelsom fod hyfforddiant yn cael ei drefnu i bob aelod o'r staff mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac anableddau a bod hyfforddiant wedi'i gynnal yn ddiweddar ar ymarfer deintyddol moesegol.

Mewn ymateb i holiadur cleifion AGIC, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (37/39) eu bod yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch. Nododd dau ymatebydd nad oeddent yn siŵr. Dywedodd un ymatebydd:

“Hygyrchedd rhagorol.”

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom bractis deintyddol a oedd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac a oedd mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom bedair deintyddfa wedi'u gosod dros ddau lawr ac ardal derbynfa agored a golau. Roedd y gwres a'r goleuadau wedi'u gosod ar lefel briodol er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gysurus. Roedd awyr iach yn cael ei gylchredeg o'r tu allan i mewn i'r practis ac roedd yr awyr o'r ystafelloedd dihalogi yn cael ei gylchredeg yn syth allan. Roedd y ffaith bod dwy ystafell ar wahân ar gyfer cyfarpar glân a chyfarpar budr yn enghraifft o ymarfer da, ac roedd agoriad rhwng y ddwy ystafell er mwyn gallu prosesu offer budr a glân fel rhan o broses ddihalogi gadarn.

Roedd safonau glendid uchel yn y practis ac roedd pob rhan ohono, gan gynnwys yr ardaloedd storio, yn dwt ac yn daclus.

Gwelsom fod y systemau cyfathrebu mewnol yn gweithio'n briodol ac roedd y cyfleusterau newid ar gyfer y staff a thoiledau'r cleifion a'r staff yn lân, yn fodern ac yn cynnwys y cyfarpar priodol. Roedd poster iechyd a diogelwch ar wal yr ystafell staff ac roedd copi o yswiriant atebolrwydd y cyflogwr i'w weld wrth ymyl arwyddion dim smygu.

Roedd y practis yn cynnal asesiadau risg cynhwysfawr drwy asesiad risg iechyd a diogelwch mewnol blynyddol, wedi'i ategu gan asesiad gan gcontractwr bob pum mlynedd. Gwnaethom adolygu'r polisi iechyd a diogelwch, y cynllun wrth gefn mewn argyfwng a'r asesiad risgiau amgylcheddol ac roedd y tri yn addas. Nodwyd gennym nad oedd dyddiad ar y cynllun wrth gefn mewn argyfwng na'r polisi iechyd a diogelwch, a oedd yn golygu na allem fod yn sicr eu bod yn gyfredol a'u bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Gwnaethom edrych ar bolisiau eraill y practis ac nid oedd dyddiad na dyddiad adolygu ar y polisiau hyn ychwaith. Dywedodd y staff wrthym fod pob polisi yn cael ei adolygu bob blwyddyn ond nad oedd cofnodion yn cael eu cadw.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau yn gyfredol, eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod unrhyw ddiweddariadau neu adolygiadau yn cael eu cofnodi.

Nodwyd gennym fod asesiad risg tân yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan y practis, a bod yr asesiad diwethaf wedi cael ei gynnal ym mis Ionawr 2023. Gwnaethom

edrych ar yr amserlen ar gyfer gwiriadau'r staff o gyfarpar diogelwch tân gan nodi'r canlynol:

- Roedd gwiriadau o gyfarpar a phrofion ar y larwm yn cael eu cynnal bob wythnos
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal o'r cyfarpar bob blwyddyn ac fe'u cwblhawyd ddiwethaf gan gontractwr ym mis Awst 2023
- Roedd gwiriadau yn cael eu cynnal o'r goleuadau brys bob mis.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân yn ddiweddar ac roedd arwyddion clir i'w gweld ym mhob rhan o'r adeilad. Gwnaethom edrych ar bob diffoddwr tân a gwelsom eu bod wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar gan gontractwr a'u bod yn briodol ar gyfer yr amgylchedd.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau safon uchel o ran atal a rheoli heintiau. Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ac wedi'i gynllunio er mwyn gallu ei lanhau'n effeithiol. Roedd amserlen lanhau addas ar waith ac roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y ddwy ystafell ddihalogi.

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r cleifion (38/39) a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' a dywedodd un claf ei fod yn 'eithaf glân'. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Gwelsom staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau. Ni welsom dystiolaeth fod gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar waith i'r staff.

Roedd profion rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr awtoclaf a'r baddonau uwchsain. Gwelsom gofnodion yn dangos bod gwiriadau dechrau'r dydd yn cael eu cynnal ar gyfer yr awtoclaf a'r baddonau uwchsain a gwnaethom edrych ar restrau gwirio dyddiol y ddeintyddfa, gan nodi eu bod yn briodol. Gwelsom fod cylchoedd yr awtoclaf yn cael eu cofnodi'n briodol a bod arolygiadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd yr un diwethaf wedi'i gofnodi ym mis Gorffennaf 2023. Nodwyd gennym nad oedd gwiriadau diwedd y dydd o'r cyfarpar dihalogi yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau diwedd y dydd o'r awtoclafau a'r baddonau uwchsain yn cael eu cofnodi.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos mai ym mis Ionawr 2023 roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal ddiwethaf ac roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn ddiweddar.

Gwelsom fod yr holl wastraff yn cael ei storio'n ddiogel a'i waredu'n briodol drwy gcontract gwaredu gwastraff. Nodwyd gennym fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn addas, ac roedd y manylion yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn ffolder COSHH gynhwysfawr.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau a'r trefniadau ar gyfer ymdrin â meddyginiaethau, eu defnyddio a'u rhoi'n ddiogel ac yn effeithiol. Gwnaethom archwilio cofnodlyfr meddyginiaethau'r practis a'r lleoliad storio diogel ar gyfer meddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi, ac roedd y ddau yn briodol.

Wrth adolygu cofnodion hyfforddiant y staff, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant CPR a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hailddilysu bob blwyddyn. Gwelsom ymarfer da ac roedd pob aelod o'r staff, ond un, wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf brys yn y gwaith.

Wrth edrych ar fag cyfarpar brys y practis, nodwyd y canlynol gennym:

- Roedd y dyddiad defnyddio ar y masg falf bag (BVM) hunanchwyddo pediatrig wedi mynd heibio, sef mis Awst 2020
- Nid oedd y masg falf bag hunanchwyddo i oedolion yn ei becyn gwreiddiol, a oedd yn golygu nad oedd dyddiad defnyddio i'w weld
- Roedd y masgiau wyneb ar gyfer y masgiau falf bag hunanchwyddo naill ai allan o'u pecynnau gwreiddiol neu wedi torri neu nid oedd pob maint ar gael
- Y dyddiad defnyddio ar gyfer y llwybr anadlu oroffaryngaidd maint 0 oedd mis Gorffennaf 2023, y dyddiad defnyddio ar gyfer maint 1 oedd mis Mawrth 2023 a'r dyddiad defnyddio ar gyfer maint 4 oedd mis Mai 2023. Roedd y dyddiadau hyn i gyd wedi mynd heibio
- Dim ond dosau a symiau wedi'u gosod ymlaen llaw o Midazolam oedd ar gael, gan olygu nad oedd yn addas ar gyfer rhai grwpiau oedran
- Roedd nodwyddau a chyfarpar brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, sef mis Awst 2021 a mis Mehefin 2021, padiau ar gyfer y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio a chyffuriau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn

cael eu storio'n amhriodol ochr yn ochr ag eitemau cyfredol. Gofynnwyd i'r staff dynnu'r eitemau hyn o'r bag

- Nid oedd rhestr wirio ar waith i sicrhau bod gwiriadau o'r cyfarpar brys yn cael eu cofnodi a gwelsom mai unwaith y mis roedd gwiriadau yn cael eu cynnal ar feddyginiaethau brys, er yr argymhellir y dylid cynnal gwiriadau bob wythnos.

Oherwydd yr effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion, aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod yr arolygiad ac mae'r camau gweithredu a gymerwyd i'w gweld yn Atodiad A.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar brys yn cael ei wirio'n rheolaidd a'i fod ar gael i'w ddefnyddio ar unwaith yn unol â'r gofynion sylfaenol a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer diogelu yn gynhwysfawr ond, fel y crybwyllwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, nid oedd dyddiad ar y polisi a oedd yn golygu na allem fod yn sicr bod y manylion yn gyfredol. Wrth edrych ar boster o siart llif diogelu a oedd wedi'i arddangos yn yr ystafell staff, gwelsom nad oedd y manylion cyswllt yn cyfateb i'r manylion cyswllt a oedd wedi'u nodi yn y polisi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth ddiogelu i staff yn gyfredol ac yn gywir.

Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw ddiweddariadau i'r polisi diogelu yn cael eu cyfleu iddynt gan gontractwr a'u bod yn cael diweddariadau gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd.

Gwelsom fod polisi ar waith i ystyried materion diogelu mewn achosion lle roedd plant neu oedolion agored i niwed yn methu apwyntiadau.

Gwelsom bolisiau yn y practis a oedd yn enwi arweinydd diogelu penodedig ac yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu. Esboniodd y staff hefyd y broses i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon gan nodi eu bod yn hyderus y byddent yn cael cefnogaeth pe byddent yn codi pryder.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Nodwyd gennym fod yr holl gyfarpar clinigol yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn addas at y diben. Gwelsom fod dyfeisiau meddygol y gellir eu haildefnyddio yn cael eu trin a'u diheintio'n briodol ac roedd trefniadau brys a threfniadau wrth gefn ar waith i ymdrin yn brydlon ag unrhyw fethiannau yn y

system. Roedd cofnodi rhif cylch y broses sterileiddio ar bob darn o offer mewn pecyn yn enghraifft o ymarfer da, ac roedd pob dan o offer y gellid ei aildefnyddio mewn pecyn gwactod.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, nid oedd y ffolder diogelu rhag ymbelydredd ddigidol ar gael i ni edrych arni. Darparwyd y ffolder i ni fwrw golwg arni ar ôl yr arolygiad a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am sut i reoli cyfarpar pelydr-X yn effeithiol, gan gynnwys polisi a gweithdrefn a ddiweddarwyd yn ddiweddar ynghyd â manylion cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd penodol. Roedd rheolau lleol ar gael yn hwylus i'r staff ar y wal y tu allan i ddrws y ddeintyddfa, ond nodwyd gennym nad oedd unrhyw gyfeiriad at gynllun wrth gefn addas ac nad oedd asesiad risg ymbelydredd ar gael i ni edrych arno.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn nodi proses glir ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio yn ogystal ag asesiad risg addas.

O'r cofnodion a welsom, gwelwyd mai dim ond pan oedd angen roedd y staff yn defnyddio pelydrau-X fel sylfaen dystiolaeth briodol i drin cleifion. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio asesiadau risg i gefnogi'r gwaith o drin cleifion yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth bod gweithgareddau graddio pelydrau-X ac archwiliadau ymbelydredd ïoneiddio addas yn cael eu cynnal.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hasesu ac yn cael diagnosis mewn ffordd ddiogel, a bod y triniaethau a oedd yn cael eu rhoi yn dilyn canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol a'u bod yn unol â'r angen clinigol.

Gwelsom fod prosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn deall gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Er hyn, ni welsom dystiolaeth bod rhestr wirio fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael ei defnyddio, ar gyfer tynnu'r dannedd anghywir.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol fel mater o arfer da.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf, a oedd wedi'u storio ar system cofnodion cleifion briodol, ac a oedd wedi'u hategu gan bolisi rheoli cofnodion addas.

Roedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi fel mater o drefn ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau y caiff hawliau cleifion nad oes ganddynt alluedd eu parchu. Gwelsom fod prosesau siartiau sylfaenol llawn ar waith ym mhob un o'r cofnodion a welsom, yn ogystal â chofnod cywir o'r triniaethau a oedd yn cael eu rhoi. Oherwydd diffyg technegol, dim ond un cofnod radiograff a welsom. Roedd y cyfiawnhad dros gynnal radiograffau wedi'i gofnodi yn yr un cofnod a welsom.

Gwnaethom nodi agweddau ar y broses cadw cofnodion yr oedd angen eu cryfhau, gan gynnwys:

- Nid oedd hanes cymdeithasol y claf mewn perthynas ag alcohol a thybaco wedi'i gofnodi mewn pedwar o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd hylendid ceg y claf wedi'i gofnodi mewn pump o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd tystiolaeth o brosesau sgrinio ar gyfer canser wedi'i chofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Dim ond un cofnod oedd yn nodi bod cyngor wedi cael ei roi ar roi'r gorau i smygu, lle y bo'n berthnasol
- Nid oedd tystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig mewn pump o'r cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt
- Dim ond yn un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt roedd asesiadau risg wedi'u cofnodi yn seiliedig ar geudodau, traul dannedd neu ganser y geg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod rheolwr y practis yn arwain y practis mewn ffordd addas. Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm a chawsom adborth cadarnhaol gan y staff am drefniadau rheoli'r practis. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio adnodd datblygu tîm corfforaethol sydd ar gael iddynt drwy gontract deintyddol.

Yn y gorffennol, roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, ond ers y pandemig, nid oeddent yn cael eu cynnal mor aml. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r cyfarfodydd hyn bellach yn dychwelyd i gael eu cynnal bob mis, yn dilyn adborth gan y staff yn eu harfarniadau blynyddol. Roedd y cofnodion a welsom yn gynhwysfawr ac yn cynnwys digon o wybodaeth i unrhyw aelod o staff nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod a oedd yn cael copi ohonynt.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd gwaith y practis yn cael ei gynnal gan brif ddeintydd a deintydd cyswllt, ar y cyd â hylenydd a thîm o dair nyrs. Dywedwyd wrthym fod rheolwyr y practis yn goruchwylio'r staff clinigol a gweinyddol, gan gynnwys perfformiad, a gwelsom fod y broses ar gyfer rheoli absenoldebau staff yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn cynnal gwiriadau i fonitro cofrestriadau â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Nodwyd gennym fod polisi a gweithdrefn addas ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a chodi pryderon a dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny.

Roedd y polisi recriwtio a'r prosesau sefydlu yn gadarn.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pump aelod o staff, a nodwyd cydymffurfiaeth dda â'r holl hyfforddiant gorfodol a'r holl rwymedigaethau proffesiynol. Roedd rhestr wirio gynhwysfawr ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau cyn cyflogi a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod newydd o staff. Clywsom fod y staff yn cael eu hannog i ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu, a gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y staff yn mynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion gorfodol o ran hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Gwelsom fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a nodwyd gennym fod yr adborth gan staff yn gadarnhaol yn y cofnodion a welsom.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd dull agored yn cael ei ddefnyddio i gael adborth, drwy ddefnyddio ffurflenni adborth i gleifion, anfon dolenni at gleifion er mwyn iddynt gwblhau adolygiadau ar-lein a gofyn i gleifion a fyddent yn fodlon i'r practis gysylltu â nhw er mwyn cynnal adolygiad o'u profiad. Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei ystyried o fewn diwrnod o'i dderbyn, a gwelsom fod unrhyw adborth yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar dudalennau'r practis ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn gwyno yn ogystal â sampl o gwynion a oedd wedi'u nodi yng nghofnodlyfr y practis a nodwyd gennym fod y broses yn cydymffurfio'n llwyr â Gweithio i Wella. Gwelsom boster cwyno wedi'i arddangos mewn man amlwg yn yr ardal aros ac roedd trefniadau ar waith i gofnodi cwynion anffurfiol neu gwynion ar lafar wrth ddesg y dderbynfa.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd gan y practis bolisi gwella ansawdd ar waith. Gwelsom fod archwiliadau clinigol ar gyfer rheoli heintiau a radiograffau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod archwiliadau ar gyfer cwynion hefyd yn cael eu cofnodi. Nodwyd rhai meysydd sicrhau ansawdd yr oedd angen eu cryfhau:

- Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal
- Ni welsom fod archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) o'r trefniadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau wedi cael ei gynnal
- Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod archwiliadau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal
- Ni welsom fod adolygiadau gan gymheiriad clinigol yn cael eu cynnal ond dywedwyd wrthym fod hyn wedi cael ei awgrymu'n ddiweddar fel rhywbeth y dylid ei roi ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o ran sut y bydd yn cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd ac archwiliadau clinigol, fel y rhai sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Wrth edrych ar fag cyfarpar brys y practis, nodwyd y canlynol gennym:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y dyddiad defnyddio ar y masg falf bag (BVM) hunanchwyddo pediatrig wedi mynd heibio, sef mis Awst 2020 • Nid oedd y masg falf bag hunanchwyddo i oedolion yn ei becyn gwreiddiol, a oedd yn golygu nad oedd dyddiad defnyddio i'w weld 	<p>Pe bai argyfwng meddygol, gallai hyn beri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.</p>	<p>Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r staff yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Archebwyd eitemau newydd yn lle'r holl eitemau roedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, a chawsant eu dosbarthu y diwrnod gwaith nesaf. Cafodd yr eitemau a oedd wedi'u storio'n amhriodol eu symud a'u storio mewn bag hyfforddi. Lluniodd y practis restr wirio.</p>

- | | | | |
|---|--|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Roedd y masgiau wyneb ar gyfer y masgiau falf bag hunanchwyddo naill ai allan o'u pecynnau gwreiddiol neu wedi torri neu nid oedd pob maint ar gael• Y dyddiad defnyddio ar gyfer y llwybr anadlu oroffaryngaid maint 0 oedd mis Gorffennaf 2023, y dyddiad defnyddio ar gyfer maint 1 oedd mis Mawrth 2023 a'r dyddiad defnyddio ar gyfer maint 4 oedd mis Mai 2023. Roedd y dyddiadau hyn i gyd wedi mynd heibio.• Dim ond dosau a symiau wedi'u gosod ymlaen llaw o Midazolam oedd ar gael, gan olygu nad oedd yn addas ar gyfer rhai grwpiau oedran• Roedd nodwyddau a chyfarpar brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt | | | |
|---|--|--|--|

wedi mynd heibio, sef mis Awst 2021 a mis Mehefin 2021, padiau ar gyfer y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio a chyffuriau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu storio'n amhriodol ochr yn ochr ag eitemau cyfredol, a chawsant eu tynnu o'r bag

- Nid oedd rhestr wirio ar waith i sicrhau bod gwiriadau o'r cyfarpar brys yn cael eu cofnodi a gwelsom mai unwaith y mis roedd gwiriadau yn cael eu cynnal ar feddyginiaethau brys, er yr argymhellir y dylid cynnal gwiriadau bob wythnos.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Symbiosis

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch heblaw am y rheini yr ymdriniwyd â nhw yn atodiad A					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Symbiosis

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd gennym nad oedd dyddiad ar y cynllun wrth gefn mewn argyfwng na'r polisi iechyd a diogelwch, a oedd yn golygu na allem fod yn sicr eu bod yn gyfredol a'u bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Gwnaethom edrych ar bolisiau eraill y practis ac nid oedd dyddiad na dyddiad adolygu ar y polisiau hyn ychwaith. Dywedodd y staff wrthym fod pob	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau yn gyfredol a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a dylai gofnodi unrhyw ddiweddariadau neu adolygiadau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8 (6)	Cafodd yr holl bolisiau a gweithdrefnau eu newid i gynnwys dyddiad a dyddiad adolygu 20/10/2023	Jennifer Morgan	Wedi'i gwblhau

<p>polisi yn cael ei adolygu bob blwyddyn ond nad oedd cofnodion yn cael eu cadw.</p>					
<p>Nodwyd gennym nad oedd gwiriadau diwedd y dydd o'r cyfarpar dihalogi yn cael eu cofnodi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau diwedd y dydd o'r awtoclafau a'r baddonau uwchsain yn cael eu cofnodi.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (3) (b)</p>	<p>Lawrlwythwyd templed gan Denplan a chafodd ei roi ar waith, gan gynnwys gwiriadau diwedd y dydd o'r cyfarpar dihalogi 05/12/2023</p>	<p>Jennifer Morgan</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd dyddiad ar y polisi diogelu a oedd yn golygu na allem fod yn sicr bod y manylion yn gyfredol. Wrth edrych ar boster o siart llif diogelu a oedd wedi'i arddangos yn yr ystafell staff, gwelsom nad oedd y manylion cyswllt yn cyfateb i'r manylion cyswllt a oedd wedi'u nodi yn y polisi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth ddiogelu i staff yn gyfredol ac yn gywir.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 14 (1) (e)</p>	<p>Cafodd yr holl bolisiau diogelu eu diweddarau a'u newid i gynnwys dyddiad a dyddiad adolygu. Diweddarwyd y poster siart llif er mwyn sicrhau bod y manylion cyswllt yn cyfateb i'r manylion cyswllt yn y polisi diweddaraf 23/10/2023</p>	<p>Jennifer Morgan</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Ni welsom dystiolaeth bod rhestr glinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, yn cael ei defnyddio ar gyfer tynnu'r dannedd anghywir.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol fel mater o arfer da.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (b)</p>	<p>Lawrlwythwyd templed y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol ar ddiwrnod yr arolygiad a'i roi ar waith 18/10/2023</p>	<p>Jennifer Morgan</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd hanes cymdeithasol y claf mewn perthynas ag alcohol a thybaco wedi'i gofnodi mewn pedwar o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd hylendid ceg y claf wedi'i gofnodi mewn pump o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 20 (1)</p>	<p>Cafodd cofnodion cleifion eu trafod a rhoddwyd templedi newydd ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl feysydd a restrir bellach yn cael eu cofnodi.</p> <p>Lawrlwythwyd templed ar gyfer archwilio cardiau cofnod gan Denplan ac mae'r broses o archwilio cofnodion cleifion yn</p>	<p>Jennifer Morgan</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd tystiolaeth o brosesau sgrinio ar gyfer cancer wedi'i chofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Dim ond un cofnod oedd yn nodi bod cyngor wedi cael ei roi ar roi'r gorau i smygu, lle y bo'n berthnasol</p> <p>Nid oedd tystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig mewn pump o'r cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Dim ond yn un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt roedd asesiadau risg wedi'u cofnodi yn seiliedig ar</p>			<p>mynd rhagddi ers yr arolygiad.</p>		
--	--	--	---------------------------------------	--	--

<p>geudodau, traul dannedd neu ganser y geg.</p>					
<p>Roedd gan y practis bolisi gwella ansawdd ar waith.</p> <p>Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal</p> <p>Ni welsom fod archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) o'r trefniadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau wedi cael ei gynnal</p> <p>Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod archwiliadau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal</p> <p>Ni welsom fod adolygiadau gan gymheiriad clinigol yn</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o ran sut y bydd yn cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd ac archwiliadau clinigol, fel y rhai sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 16</p>	<p>Caiff y polisi gwella ansawdd ei ddiweddarau gyda chymorth Denplan.</p> <p>Lawrlwythwyd templed ar gyfer archwilio cyngor rhoi'r gorau i smygu gan Denplan a chynhaliwyd yr archwiliad 31/10/2023. Caiff y canfyddiadau eu trafod a chaiff cynllun gwella ei lunio. Ychwanegwyd archwiliad o gyngor rhoi'r gorau i smygu at restr archwiliadau rheolwr y practis.</p> <p>Lawrlwythwyd templed ar gyfer archwilio'r trefniadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau</p>	<p>Jennifer Morgan</p>	<p>Ionawr 2024</p>

cael eu cynnal ond
dywedwyd wrthym fod
hyn wedi cael ei
awgrymu'n ddiweddar
fel rhywbeth y dylid ei
roi ar waith.

gan Denplan a bwriedir
cynnal yr archwiliad yn
y flwyddyn newydd.
Ychwanegwyd
archwiliad o'r
trefniadau r gyfer
rhagnodi gwrthfotigau
at restr archwiliadau
rheolwr y practis.

Lawrlwythwyd templed
ar gyfer archwilio
cofnodion cleifion gan
Denplan ac mae'r
archwiliad yn mynd
rhagddo ar hyn o bryd.
Ychwanegwyd
archwiliad o gardiau
cofnod cleifion at restr
archwiliadau rheolwr y
practis.

Bwriedir cynnal
archwiliad clinigol ac
adolygiad gan
gymheiriaid o fis
Ionawr 2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jennifer Morgan

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 05/12/2023